

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER

10 Mai 2023

AM 7.00 YSGOL BRYNGWRAN A TRWY ZOOM

YN BRESENNOL:

Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, G Parry, E Law-Shui Nicholson, H N Evans, C Thomas, D Fowlie (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)

YMDDIHEURIADAU:

Cyng S Jones, J Earnshaw

1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	DATGAN DIDDORDEB – Dim
3	DERBYN COFNODION Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 12.04.23 fel cofnodion cywir.
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Lon y Fynwent – Mae'r gwaith wedi'i gwblhau
4.2	Grant ar gyfer y maes Chwarae – Dywedodd y Clerc fod y Gymdeithas wedi cynnig grant o £13000 ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn eto. Mae'r dyfynbris yn cynnwys pris am sgip. Bydd y Clerc yn cysylltu â Playquest i ofyn pam fod angen sgip gan fod yr hen offer wedi ei symud. Bydd is-bwyllgor y Cae Chwarae yn cyfarfod ar y maes chwarae ar 24.05.23 ac yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod misol nesaf.
4.3	Tap mynwent Salem - Mae'r garejys ger Capel Salem wedi cael eu gwerthu. Mae dŵr yn cael ei gyflenwi ar hyn o bryd o do'r garejys i tanc, ond mae angen gwaith atgyweirio. Mae'r perchennog newydd wedi cynnig gwneud y gwaith atgyweirio ei hun.
4.4	Cysgodfan Bws Engedi - Mae'r Clerc wedi derbyn y Drwydded Gwaith Stryd ac wedi rhoi cyfarwyddyd i'r cyflenwr i fwrw ymlaen â'r cysgodfan
4.5	Wal mynwent Llanbeulan – mewn llaw
4.6	Mandad y banc – mewn llaw
	Llofnod.....Cadeirydd 07.06.23

5	ADRODDIAD y CADEIRYDD – Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am gydweithio ac am eu cefnogaeth dros y 12 mis diwethaf. Cytunwyd y byddai'r cyfarfodydd yn parhau am 7pm
6	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Pwyllgor Safonau
6.1	Mae cylchlythyr y Pwyllgor Safonau wedi'i ddsbarthu i'r aelodau
7	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
7.1	Melanie Wilson - Gweler cofnodion 12.04.23. Mae Ms Wilson yn gofyn beth yw'r camau nesaf o ran parcio yn y Stryd Fawr? Bydd y Clerc yn ymateb gan ddweud nad oes gan y Cyngor Cymuned pwerau ynglŷn â pharcio. Mae unrhyw broblemau parcio yn y dyfodol rhwng perchnogion cerbydau a'r Cyngor Sir
7.2	Cymdeithas Elusennol Ynys Môn – gweler 4.2
8	MATERION ERAILL
	Dim
9	MATERION ARIANNOL
	Cytunwyd I dalu y canlynol:
9.1	Cyngor Ynys Môn £250.00 (Trwydded Gwaith Stryd)
9.2	R G Hire £5004.00 (Lon y Fynwent)
10	MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF
10.1	Parc Solar Traffwll
10.2	Llwybr Cyhoeddus wedi'i rwystro
	Llofnod.....Cadeirydd 07.06.23